# Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

# Cofnodion

**Teitl y cyfarfod:**

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

**Lleoliad:** Cyfarfod dros Microsoft Teams

**Dyddiad y Cyfarfod:** 20 Medi 2021

**Yn bresennol:**

Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)

Dennis Matheson, TFA

Bob Vaughan, CNC

Sarah Jones, Dŵr Cymru

Marc Williams, CNC

James Ruggeri, HCC

Edward Davies, CNC

Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru

Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru

Matthew Walters, Llywodraeth Cymru

Nichola Salter, CNC

Einir Williams, Cyswllt Ffermio

Charlotte Priddy, Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB)

Shane Thomas, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin (FfPSG)

Fraser McAuley, CLA

Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

Geraint Hamer, Llywodraeth Cymru

Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru

Ruth Johnston, CNC

Eryl Roberts, Cyswllt Ffermio

**Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:**

Gail Davies-Walsh, Afonydd Cymru (Eitem 3 yn unig)

**Ysgrifenyddiaeth:**

Bronwen Martin, CNC

**Ymddiheuriadau:**

Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin (FfPSG)

Kate Snow, United Utilities

Sarah Hetherington, CNC

Katy Simmons, CNC

## Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant

1. Croesawodd Zoe Henderson bawb i’r cyfarfod dros Microsoft Teams gan nodi’r ymddiheuriadau. Sylwer bod y cyfarfod yn cael ei recordio ar gyfer y cofnodion ac y bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu pan fydd cofnodion y cyfarfod wedi’u cymeradwyo.

2. Croesawodd Zoe Gail Davies-Walsh (Afonydd Cymru) ac Eryl Roberts (Cyswllt Ffermio) i'r cyfarfod.

3. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â’r eitemau ar yr Agenda.

   - DS: Mae pob aelod o’r grŵp wedi llenwi ffurflenni datganiad o fuddiant eisoes ond dylent ddatgan a oes ganddynt fuddiant mewn unrhyw beth ar yr agenda hefyd.

## Eitem 2 Adolygu’r Cofnodion a’r Camau Gweithredu

4. Ar ôl i’r grŵp adolygu cofnodion y cyfarfod a chytuno’n ffurfiol arnynt, cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd y cofnodion hynny’n cael eu cyhoeddi ar wefan CNC lle byddant ar gael i’r cyhoedd. Felly, mae’n bwysig i’r cofnodion fod yn gofnod cywir o’r cyfarfodydd.

5. Soniodd Bronwen fod sylwadau wedi dod i law gan Creighton Harvey, FfPSG, sydd wrthi'n cael eu datrys.

6. Adolygodd y grŵp gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2021. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau pellach ynghylch cofnodion cyfarfod mis Awst.

7. Rhannodd Bronwen Martin, CNC, ei sgrin er mwyn i'r grŵp adolygu'r camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

## Eitem 3 Materion sy’n Codi

8. Dyma gyfle i’r grŵp drafod unrhyw faterion sy’n deillio o gofnodion y cyfarfod blaenorol, papur Diweddaru neu ddogfennau perthnasol. Gall aelodau roi gwybod am wybodaeth, sylwadau neu eglurhad arwyddocaol i'r grŵp.

9. Yr wybodaeth ddiweddaraf am waith Dosrannu Ffynhonnell yr Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA): Soniodd Bob fod y gwaith hwn yn mynd rhagddo gyda'r modelu ar gyfer yr afonydd eraill. Efallai y bydd diweddariad manylach ar gael yn y cyfarfod nesaf.

10. Cylchlythyr Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru: anfonwyd Cylchlythyr drafft Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru *‘Ein Tir, Dwr ac Aer’* at yr aelodau i'w adolygu cyn y cyfarfod. Dywedodd Bronwen y byddai'n trosglwyddo unrhyw adborth i Katy a'i thîm. Awgrymodd Zoe y dylai aelodau roi sylwadau erbyn diwedd yr wythnos (24 Medi 2021) fel y gellir ei gwblhau a'i ddosbarthu. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau eraill mewn perthynas â'r cylchlythyr drafft.

11. Materion yn deillio o'r cyfarfod blaenorol: Awgrymodd Zoe fod y cofnodion yn gynhwysfawr. Croesawodd Bronwen adborth ynglŷn â'r cofnodion a gofynnodd i'r aelodau a fyddai'n well ganddynt gael cofnodion mwy cryno. Cyhoeddir cofnodion y cyfarfod ar wefan allanol CNC, felly efallai bod lefel y manylion yn bwysicach i'r rhai nad ydynt yn mynychu'r cyfarfodydd. Dywedodd Zoe y byddai cydbwysedd rhwng cofnodion manwl a chofnodion mwy cryno yn well.

## Eitem 4 Cyflwyniad Afonydd Cymru

12. Croesawodd Zoe Gail Davies-Walsh, Afonydd Cymru, a fydd yn rhoi cipolwg i'r grŵp ar waith y sefydliad.

13. Rhannodd Gail gyflwyniad a chyflwynodd Afonydd Cymru sy'n sefydliad ymbarél sy'n cynrychioli'r chwe Ymddiriedolaeth Afonydd yng Nghymru. Mae gan Afonydd Cymru amryw o rolau, gan gynnwys:

    - Rôl eiriolaeth gyda Llywodraeth Cymru a CNC
    - Cefnogi'r chwe Ymddiriedolaeth a chynorthwyo gyda'u datblygiad
    - Arwain partneriaethau ledled Cymru
    - Parhau i adfer a chynnal a chadw ein hafonydd a gwella ansawdd dŵr ac ecosystemau dŵr croyw
    - Gwella ansawdd dŵr ledled Cymru

14. Soniodd Gail fod afonydd Cymru yn methu, gyda dim ond 43% yn meddu ar Statws Ecolegol Da, a dim ond 4% o welliant a gafwyd yng nghylch diwethaf y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae gwaddol hanesyddol o faterion sy'n deillio o lygredd diwydiannol, llygredd dŵr mwyngloddiau a choredau a rhwystrau. Mae problemau presennol yn cynnwys llygredd amaethyddol, gollyngiadau gorlif carthffosiaeth cyfunol,

plaladdwyr/chwynladdwyr a chwlferti. Awgrymodd Gail bethau i'w hystyried yn y dyfodol, gan gynnwys cynhyrchion fferyllol, microblastigau, cemegion newydd, safonau newydd a grym pobl i ysgogi gwelliannau a newid.

15. Trafododd Gail y gwaith parhaus o wella cynefinoedd a llwybrau pysgod ledled Cymru, gan gynnwys arolygon a phrosiectau adfer.

16. Soniodd Gail fod yr Ymddiriedolaethau yn gweithio gydag amaethyddiaeth hefyd. Mae cynghorwyr fferm yr Ymddiriedolaethau Afonydd yn gweithio gyda ffermwyr a thirfeddianwyr ledled Cymru gyda phrosiectau sy'n cwmpasu:

    - Rheoli pridd (strwythur pridd, lefelau deunydd organig, lefelau maethynnau)
    - Trin a storio plaladdwyr
    - Seilwaith ffermydd (grant sy'n cefnogi gwelliannau ar y fferm megis gwahanu dŵr glân a budr, ffensio etc)
    - Mynediad da byw i'r cwrs dŵr (ffensio, gorsafoedd dŵr yfed amgen etc)

17. Mae'r Ymddiriedolaethau'n blaenoriaethu eu gweithgareddau i'r sectorau y maent yn gweithio gyda nhw. Mae amaethyddiaeth yn amrywio'n fawr ar draws tirwedd Cymru, felly mae'r materion a'r heriau yn amrywio hefyd. Mae'r Ymddiriedolaethau hefyd yn gweithio'n galed i sicrhau bod dysgu a gwybodaeth yn cael eu trosglwyddo rhyngddynt.

18. Amlinellodd Gail rai prosiectau amaethyddol parhaus presennol ledled Cymru ac awgrymodd fod cyfleoedd i eraill ymgysylltu â'r prosiectau hyn.

19. Tynnodd Gail sylw at rywfaint o'r gwaith y maent yn ei wneud gyda'r sector amaethyddol:

    - Mae gan ymddiriedolaethau afonydd gyfradd llwyddiant uchel o ran ymgysylltu â ffermydd
    - Mae rhywbeth y gellir ei wella ar bob fferm
    - Mewn llawer o achosion, mae addasiadau bach yn gwneud gwahaniaeth mawr
    - Mae angen i gyngor a rheolaeth fferm fod yn bwrpasol i'r ardal ddaearyddol ac i'r fferm
    - Galw mawr am gymorth – mae ffermwyr yn croesawu cefnogaeth ymddiriedolaethau afonydd mewn ceisiadau am gyllid ac yn y cymorth grant y maent yn ei roi yn uniongyrchol
    - Ni fydd ymddiriedolaethau afonydd yn rhoi arian i ffermydd lle mae diffyg cydymffurfio clir

20. Mae'r Ymddiriedolaethau hefyd yn gweithio ar bethau i gefnogi Cyfalaf Naturiol drwy gasglu a mapio data. Yn y pen draw, bydd hyn yn helpu i gyflawni eu rheolaeth tir yn gyffredinol ac yn nodi cyfleoedd. Mae rhai enghreifftiau o brosiectau yn cynnwys Rheoli Llifogydd yn Naturiol (pyllau storio, plannu coed ac argaeau sy'n gollwng) a

Bioamrywiaeth (Offeryn Cynllunio Enillion Net, Asesiadau Cyflwr Afonydd a metrig bioamrywiaeth).

21. I gloi, crynhodd Gail weithgareddau bob dydd yr Ymddiriedolaethau (e.e. cyngor a rheolaeth fferm, creu coetiroedd, gwrthbwyso maethynnau a rheoli llifogydd) a phethau y maent yn ceisio eu cyflawni (gwella cyfalaf naturiol, gwella bioamrywiaeth, gwella ansawdd dŵr a rheoli adnoddau dŵr).

22. Soniodd Einir Williams, Cyswllt Ffermio, y byddant yn cynnal digwyddiadau ansawdd dŵr mewn 48 o ddalgylchoedd a gofynnodd i Gail a fyddai'n hapus i Bronwen rannu ei manylion cyswllt fel y gallent drafod y posibilrwydd o gydweithio; Cytunodd Gail i rannu ei manylion.

***PG Medi 01: Bronwen Martin, CNC, i rannu manylion cyswllt Gail Davies-Walsh gyda'r grŵp.***

23. Dywedodd Bob fod ganddo ddiddordeb mewn ymgysylltu ag Afonydd Cymru ynghylch 'Beyond the farm gate’. Cytunodd Gail fod rhywfaint o gydgysylltu i'w wneud a bod angen mwy o gyfathrebu. Bydd cysylltu gwaith yr Ymddiriedolaethau yn uniongyrchol hefyd o fudd mawr.

24. Dywedodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, fod dathlu arferion da yn bwysig ac yn ysgogol. Gofynnodd Rachel pa fudd cyhoeddus a chyfalaf naturiol y maent yn ei fapio'n benodol a gwnaeth sylwadau ar waith y gadwyn gyflenwi gan gydnabod fod llawer o hynny'n digwydd dros y ffin yn Lloegr ac mae'n debyg ei fod yn gweithio'n dda pan fo’r gadwyn gyflenwi wedi'i hintegreiddio, ond efallai nad yw hynny'n wir yng Nghymru. Mae NFU Cymru wedi canolbwyntio ar 'Frand Cymru' a datblygu'r rhaglen gwerthoedd brand cynaliadwy, a allai fod o ddiddordeb i Afonydd Cymru. Dywedodd Gail eu bod yn cydnabod y gwahaniaethau yn y gadwyn gyflenwi rhwng Cymru a Lloegr a bod rhywfaint o waith da wedi'i wneud ar hyn i ddeall y sefyllfa, ond maent bellach yn archwilio gwahanol gysylltiadau a chontractau posibl i Gymru.

25. Gofynnodd Fraser McAuley, CLA, beth oedd enw'r prosiect y soniwyd amdano ynghylch gweithio gyda chadwyni cyflenwi yn Lloegr. Dywedodd Gail mai enw'r prosiect oedd y 'Core Tools Initiative' sy'n cael ei sbarduno gan ddull seiliedig ar ddalgylch yr Ymddiriedolaethau Afonydd yn Lloegr.

26. Gofynnodd Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru, pam mae bwlch mawr yn y canolbarth a'r gogledd-ddwyrain yn y map o brosiectau presennol. Soniodd Bernard hefyd fod y grŵp hwn wedi bod yn gweithio ar ddull cydgysylltiedig ac wedi nodi dalgylchoedd sy'n 'ardaloedd problemus', a gofynnodd sut y gallwn sicrhau nad yw ffermwyr yn cael cyngor gwahanol o lawer o wahanol ffynonellau. Dywedodd Gail fod yr ardal hon yn dod o dan afon Hafren ac na ellid cael data oherwydd newidiadau strwythurol mewnol yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mae gan afon Hafren 18 o gynghorwyr fferm ac mae prosiectau yn yr ardaloedd hyn.

27. Trafododd Dennis Matheson, TFA, ddwy erthygl papur newydd yr oedd wedi eu darllen yn ddiweddar; un ynghylch llygredd afonydd dros y ffin yn Lloegr a'r ail ynghylch y rheolau newydd sy'n diogelu stociau pysgod.

28. Dywedodd Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru, na fydd gweithio gyda'n gilydd yn gweithio heb ryw fath o uwchgynllun. Mae angen cynllun cyffredinol er mwyn cydgysylltu pethau, helpu i ddeall beth mae sefydliadau eraill yn ei wneud a chydweithio i gyflawni pethau.

## Eitem 5 Diweddariad Prosiect Llwytho Maethynnau

29. Cyflwynodd Marc Williams, CNC, ddiweddariad byr ar gynnydd y Prosiect Llwytho Maethynnau hyd yma.

30. Rhoddodd Marc gefndir i nodau'r prosiect ac amlinellodd yr hyn mae'r ddau becyn gwaith yn ei gynnwys. Mae cyllid ar gyfer y prosiect ar gael gan gangen bridd Llywodraeth Cymru ac ADAS yw'r contractwr sy'n cyflawni'r gwaith.

31. Mae ADAS wedi dechrau Pecyn Gwaith 1 sy'n edrych ar y cyfyngiadau ar ailgylchu maethynnau a bydd yn mesur y rhwystrau ffisegol, tir, pridd, rheoli, tymhorol a hinsoddol i gymhwyso deunyddiau anorganig ac organig i dir. Bydd Pecyn Gwaith 2 yn cynnwys asesiad o'r defnydd presennol o faetholion, gan gynnwys tail organig (slyri da byw a thail buarth fferm) a deunyddiau organig eraill nad ydynt ar ffermydd.

32. O ran yr hyn y mae modd i’r prosiect ei gyflawni, mae ADAS wedi dechrau Pecyn Gwaith 1 a’r nod yw cwblhau hyn erbyn 31 Hydref 2021. Nod ADAS yw cwblhau Pecyn Gwaith 2 erbyn 31 Ionawr 2022. Bydd yr holl wybodaeth a chanfyddiadau yn cael eu crynhoi mewn adroddiad terfynol a fydd wedi'i gwblhau erbyn 28 Chwefror 2022.

33. Dywedodd Marc fod cyfarfodydd cynnydd wedi'u trefnu i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y prosiect a'n galluogi i ddarparu canllawiau, data, cymorth pellach etc. Bydd diweddariadau pellach yn cael eu darparu i'r grŵp wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen a bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei rannu gyda'r grŵp. Yna gellir ystyried Opsiynau ar gyfer Pecyn Gwaith 3.

34. Soniodd Marc fod CNC wedi trafod y bylchau a'r cyfyngiadau data gydag ADAS ac y bydd y rhain yn cael eu hamlygu yn yr adroddiad.

35. Gofynnodd Zoe a fu unrhyw fewnbwn gan aelodau'r grŵp. Dywedodd Marc fod manyleb y prosiect wedi'i rhannu â'r grŵp yn gynharach yn y flwyddyn a gofynnwyd i'r aelodau ar y pryd a oedd ganddynt unrhyw wybodaeth a allai fwydo i mewn i'r gwaith hwn. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ar y pryd, ond ailadroddodd Marc y cais hwn.

36. Cydnabu Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, na fydd y gwaith hwn ond cystal â'r data y mae'n seiliedig arno. Mae'n bwysig iawn nodi'r bylchau presennol yn glir gan y gellid dod i rai casgliadau ffug. O edrych ar niferoedd gwartheg, er enghraifft, efallai mai un 'ceidwad' sydd, ond efallai eu bod wedi'u dosbarthu ar draws amryw o ddaliadau; felly, bydd cipio'r math hwn o ddata amser real yn anodd. Dywedodd Rachel y bydd hefyd angen adrodd yn glir ar bob un o'r cafeatau. Cytunodd Marc â sylwadau Rachel, mae nodi cafeatau a chyfyngiadau yn rhan o friff y prosiect.

    Soniodd Rachel fod NFU Cymru, fel rhanddeiliaid yn y diwydiant, wedi cael cyfle i wirio synnwyr rhywfaint o waith tystiolaeth a senarios Llywodraeth Cymru o ran datblygu polisi i'r dyfodol. Awgrymodd Rachel y gellid trefnu cyfarfod rhanddeiliaid yn y dyfodol i adolygu gwaith y Prosiect Llwytho Maethynnau. Diolchodd Marc i Rachel am yr

awgrym a dywedodd y gellid archwilio'r posibilrwydd hwn gydag ADAS yn y cyfarfod cynnydd nesaf.

37. Gan fod y prosiect bellach wedi dechrau, awgrymodd Zoe y gellid ailddosbarthu cynnig gwreiddiol y prosiect i aelodau, ynghyd â rhestr o rai o'r bylchau a nodwyd eisoes. Dywedodd Marc y byddai'n anfon yr wybodaeth at aelodau.

***PG Medi 02: Marc i ddosbarthu'r ddogfen sy'n cynnwys cynnig y Prosiect Llwytho Maethynnau.***

## Eitem 6 Trafodaeth Bord Gron

38. Dyma gyfle i aelodau roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am waith diweddar neu barhaus eu sefydliad, trafod pryderon cyfredol eu haelodau a thynnu sylw at gynlluniau neu ddigwyddiadau yn y dyfodol (e.e. Y Ffair Aeaf).

39. Dywedodd Fraser McAuley, CLA, fod y CLA wedi ymateb i'r gwahanol ymgynghoriadau ac adolygiadau diweddar. Mae'r CLA yn edrych ar eu hagenda ar gyfer y Ffair Aeaf a gallant rannu'r agenda honno unwaith y bydd wedi'i chadarnhau.

    Soniodd Fraser y bydd rhyw fath o gyhoeddiad gan Lesley Griffiths AS yfory (21 Medi 2021) a meddyliodd tybed a oedd eraill yn gwybod beth fyddai cynnwys y cyhoeddiad. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan y grŵp.

40. Soniodd Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru, ei fod wedi mynychu digwyddiad slyri Gelli Aur yr wythnos diwethaf, a'i fod yn ddiddorol iawn. Dywedodd Bernard ei fod wedi gofyn a oedd Gelli Aur wedi cael cyfle i gyfrannu at adolygiad y Senedd o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021; dywedodd John Owen eu bod wedi cael y cyfle hwnnw. Gofynnodd John i bobl geisio defnyddio ein platfformau i geisio darbwyllo'r gweinidog i ymweld â Gelli Aur i weld y gwaith. Awgrymodd Bernard y dylai pawb hefyd geisio darbwyllo grŵp Paul Davies i ymweld â Gelli Aur.

41. Dywedodd Charlotte Priddy, AHDB, ei bod yn rheoli tri phrosiect sy'n edrych ar fferm laeth sero net ac ambell un arall tebyg. Awgrymodd Charlotte y gallai fod cyfle i rannu cynnydd mewn cyfarfod yn y dyfodol, efallai ym mis Rhagfyr neu fis Ionawr.

42. Dywedodd Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru, fod ei sefydliad hefyd wedi cyflwyno ymateb i adolygiad y pwyllgor ar y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Fodd bynnag, soniodd Chris fod problem gyda'r ffaith bod yr adolygiad hwn yn cael ei gynnal ar yr un pryd â'r Adolygiad Barnwrol. Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru wedi cwestiynu a yw'n briodol cynnal adolygiad ar yr un pryd, gan fod ganddo oblygiadau cyfreithiol ar gyfer tystiolaeth a roddir i'r adolygiad.

43. Dywedodd Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru, fod adolygiad y pwyllgor a'r broses Adolygiad Barnwrol yn parhau. Dywedodd Spencer ei fod yn hapus i ateb unrhyw gwestiynau ond na all wneud sylwadau ar yr adolygiad na'r broses Adolygiad Barnwrol.

44. Dywedodd Einir Williams, Cyswllt Ffermio, fod gan Cyswllt Ffermio ddigwyddiadau ansawdd dŵr ar y gweill ar gyfer y 48 o ddalgylchoedd sy'n methu. Maent wedi creu

rhestr fer o 7 dalgylch â blaenoriaeth sydd wedi'u dewis lle nad yw digwyddiadau wedi'u cynnal yn y gorffennol.

Mae cynllun cyfathrebu'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol yn parhau gyda gweithdai a gweminarau wedi'u cynllunio dros y gaeaf ac maent yn cydweithio ag AHDB a HCC ar rai o'r rhain. Bwriedir cynnal gweithdai un-i-un i ffermwyr llaeth weithio drwy'r llyfr gwaith Parthau Perygl Nitradau, ond nid yw'r gwaith hwn wedi'i gwblhau eto.

O ran presenoldeb yn y Ffair Aeaf, bydd Cyswllt Ffermio yno a gobeithio y bydd ganddynt bresenoldeb ar gylch uchaf y Cylch Gwartheg. Bydd Cyswllt Ffermio hefyd yn cydweithio â Llywodraeth Cymru a Taliadau Gwledig Cymru yn y Pafiliwn.

Dywedodd Einir fod Swyddogion Datblygu Cyswllt Ffermio wedi cael sêl bendith i ailgychwyn ymweld â marchnadoedd da byw a fydd yn help enfawr i ddechrau sgyrsiau gyda ffermwyr ar lawr gwlad.

45. Soniodd James Ruggeri, HCC, fod HCC yn parhau i weithio ar eu brand 'Y Ffordd Gymreig' y mae cynaliadwyedd a llygredd i gyd yn bwydo iddo. Bydd HCC yn cydweithio â Cyswllt Ffermio lle bynnag y bo modd i'w cefnogi.

46. Dywedodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, eu bod yn gweithio i ddatblygu eu presenoldeb yn y Ffair Aeaf, ac y bydd yn dda iawn gweld aelodau wyneb yn wyneb ar ôl cyfnod mor hir.

Yr wythnos diwethaf, lansiodd NFU Cymru eu hymgyrch 'Strategaeth Tyfu Gyda'n Gilydd' ar gyfer cynyddu gorchudd coed yn gynaliadwy yng Nghymru. Mae NFU Cymru hefyd yn brysur yn paratoi ar gyfer eu presenoldeb yn COP26 ac yn gweithio ochr yn ochr ag undebau ffermio'r DU. Mae NFU Cymru hefyd yn gobeithio cael rhai digwyddiadau neu ffocws ar gyfer COP Cefn Gwlad cyn y digwyddiad COP26.

Soniodd Rachel am yr adroddiadau dros y penwythnos fod yr unig wneuthurwr gwrtaith yn y DU wedi rhoi'r gorau i gynhyrchu oherwydd cost gynyddol tanwydd, sy'n effeithio ar gynhyrchu CO2 sydd ei angen yn y gadwyn gyflenwi. Mae hyn yn pwysleisio manteision gwrtaith organig a'r dull economi gylchol o reoli ffermydd. Dywedodd Rachel fod hyn yn rhywbeth y bydd y grŵp am gadw llygad arno.

47. Dywedodd Sarah Jones, DCWW, fod ei thîm ar hyn o bryd yn gweithio ar gynigion gwahanol ar gyfer gweddill eu cyfnod Cynllunio Rheoli Asedau (AMP). Mae rhai o'r grwpiau ffermwyr yn Nalgylch Bannau Brycheiniog wedi bod yn gwneud rhywfaint o waith mapio risg a mapio cyfleoedd a allai gysylltu â'r Prosiect Llwytho Maethynnau. Dywedodd Sarah y gallai gyflwyno Marc i'w chydweithiwr Jamie i weld a oes unrhyw gefnogaeth y gallant ei rhoi.

***PG Medi 03: Sarah Jones, DCWW, i gyflwyno Marc Williams i'w chydweithiwr Jamie i weld a oes unrhyw gefnogaeth y gallant ei rhoi o ran y Prosiect Llwytho Maethynnau.***

Soniodd Sarah eu bod yn gweithio gyda Cyswllt Ffermio a bod ganddynt rai grwpiau Agrisgôp sy'n gysylltiedig â dalgylchoedd â blaenoriaeth. Ymatebodd DCWW hefyd i Adolygiad y Pwyllgor a oedd yn tynnu sylw at y risgiau i'r busnes megis gweithrediadau biosolidau.

48. Dywedodd Dennis Matheson, TFA, eu bod hefyd wedi ymateb i Adolygiad Pwyllgor y Senedd. Mae TFA Cymru yn croesawu adroddiad 'Tyfu gyda'n gilydd' NFU Cymru ar blannu coed, ac roedd yn cofio bod effaith plannu coed ar denantiaid yn cael ei hamlygu yn y ddogfen.

    Trafododd Dennis sefyllfa lle gwnaeth rhywun gais am ganiatâd cynllunio ar gyfer estyniad ar lagŵn slyri a wrthodwyd gan yr Awdurdod Lleol oherwydd pryderon amgylcheddol. Mae pryder, os bydd y math hwn o sefyllfa'n codi, y gallai cael caniatâd cynllunio i gydymffurfio â'r rheolau erbyn y dyddiad cau fod yn anodd iawn.

    O ran y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol, dywedodd Dennis ei fod wedi siarad â'r landlord fel yr argymhellwyd gan y ddogfen Cwestiynau Cyffredin ar gyfer tir tenantiaid. Dywedodd Dennis nad yw sefyllfa'r landlord wedi newid o'r 20 mlynedd diwethaf ac na allant fforddio disodli neu uwchraddio storfeydd slyri unrhyw denant lle maent yn atebol; mae hyn yn golygu cyflafareddu.

    Mae TFA Cymru yn dal i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch pryderon mewn perthynas â thenantiaeth ond nid ydynt wedi llwyddo i wneud unrhyw gynnydd.

49. Dywedodd Ruth Johnston, CNC, ei bod wedi derbyn e-bost gan Gwyn Jones, CNC, sy'n ymwneud â thir comin. Mae'r e-bost yn ymwneud â'r prosiect a ariennir gan LADER/CNC i ddatblygu dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau o gefnogi'r gwaith o reoli tiroedd comin yn gynaliadwy yng Nghymru sy'n dod i ben ar 31 Hydref 2021, ac mae cyfres o weminarau wedi'i threfnu. Dywedodd Ruth y byddai'n anfon yr wybodaeth ymlaen at Bronwen iddi ei rhannu gyda'r grŵp.

***PG Medi 04: Ruth Johnston, CNC, i rannu e-bost Gwyn Jones gyda Bronwen iddi ei rannu gyda'r grŵp.***

***PG Medi 05: Bronwen Martin, CNC, i rannu e-bost Gwyn Jones gyda'r grŵp ynghylch manylion gweminarau'r prosiect a ariennir gan LADER/CNC sy’n digwydd yn fuan.***

Soniodd Ruth ei bod wedi newid rôl a'i bod yn mynd i arwain ar adolygiad prisiau Ofwat 2024 a phennu buddsoddiad ar gyfer cyfnod nesaf y rhaglen rheoli asedau ond bod hyn yn ymwneud â defnydd tir o ran pethau fel atebion sy'n seiliedig ar natur a chysylltu â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

50. Dywedodd Bob, yn ogystal â'r Ffair Aeaf, mae BlasCymru / TasteWales hefyd yn cael ei gynnal ar 27 a 28 Hydref 2021 yn ICC Cymru, Casnewydd. O ran adolygiad Pwyllgor y Senedd ar y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol, dywedodd Bob na chyflwynodd CNC unrhyw sylwadau gan fod ein safbwynt yn glir yn gyhoeddus. Fodd bynnag, gofynnwyd i CNC fod yn bresennol ar 30 Medi 2021 i roi tystiolaeth; roedd Bob yn deall bod Cyswllt Amgylchedd Cymru a'r undebau ffermio wedi cael eu gwahodd ym mis Tachwedd.

51. Awgrymodd Zoe y byddai'n braf trefnu rhywbeth i ni gael cyfarfod a dweud 'helo' yn y Ffair Aeaf. Awgrymodd Bob y dylid trefnu te a choffi i'r rhai sy'n mynychu. Soniodd Marc y bydd gan CNC stondin fach yn y ffair.

## Eitem 7 Trafodaeth ynghylch ymweliad safle/fferm

52. Yn dilyn canlyniadau'r arolwg diweddar, croesawodd Zoe y grŵp i awgrymu opsiynau ar gyfer ymweliad safle/fferm ym mis Hydref.

53. Mae rhai lleoliadau posibl ar gyfer cyfarfod mis Hydref yn cynnwys:

- Coleg Cambria – Llysfasi (gogledd-ddwyrain)
- Campws amaethyddol Gelli Aur Coleg Sir Gâr (de-orllewin)
- Gwaith Trin Dŵr i'r gogledd o Ferthyr Tudful (de)
- Safle/fferm arddangos Cyswllt Ffermio o bosib

54. Soniodd Sarah Jones, DCWW, y byddai angen gohirio trefnu ymweliad â Gwaith Trin Dŵr oherwydd y cyfyngiadau presennol sydd ar waith ar gyfer safleoedd gweithredol.

55. Dywedodd Zoe y bydd y tîm yn gweithio tuag at drefnu cyfarfod wyneb yn wyneb ym mis Hydref.

## Eitem 8 Unrhyw Fater Arall

56. Soniodd Zoe fod cyfarfod nesaf yr Is-grŵp wedi'i drefnu ar gyfer 18 Hydref 2021.

57. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau eraill.

## Diwedd y cyfarfod